

Canrannau

1 Profodd coleg amaethyddol (*agricultural*) y cynnyrch ffrwythau (*fruit yield*) o ddwy amrywiaeth wahanol o goed. Gwnaethon nhw gynnal y prawf am 3 blynedd.

Cynhyrchodd Coeden A 225 kg o ffrwythau yn ei blwyddyn gyntaf ond cafodd y pwysau eu gostwng $\frac{1}{3}$ o'r cynnyrch blaenorol am bob un o'r ddwy flynedd nesaf.

Cynhyrchodd Coeden B 200 kg o ffrwythau yn ei blwyddyn gyntaf ond cafodd y pwysau eu gostwng 20% o'r cynnyrch blaenorol am bob un o'r ddwy flynedd nesaf.

Gan ddangos eich holl waith cyfrifo, darganfyddwch pa goeden gynhyrchodd fwyaf o ffrwythau yn y drydedd flwyddyn, a faint o gilogramau yn fwy.

2 Mae siop wedi gostwng pris beic 40% o'i bris gwreiddiol.

Pris sêl y beic yw £192.

Cyfrifwch bris gwreiddiol y beic.

3 Mae siop fawr yn y stryd fawr yn cyflogi 3655 o bobl.
Mae hyn yn ostyngiad o 14% yn nifer y bobl roedd hi'n eu cyflogi llynedd.

Faint o bobl gafodd eu cyflogi gan y siop llynedd? [3]

4 Mae pwysau'r ffrwythau sy'n cael eu casglu o berllan (*orchard*) yn gostwng 8% bob blwyddyn.

Eleni, cafodd 2116 kg o ffrwythau eu casglu.

Beth oedd pwysau'r ffrwythau a gafodd eu casglu flwyddyn yn ôl?

5 Eleni cyfrifodd grŵp cadwraeth nifer y coed mewn parc gan gofnodi cyfanswm o 1144 o goed.

Maen nhw'n honni bod gostyngiad o 35% wedi bod yn y nifer ers iddyn nhw gyfrif y coed y tro diwethaf yn 2006.

Faint o goed oedd yn y parc yn 2006?

6 (a) Prynodd Lucy siaced dylunydd (*designer*) am £120.
Gwnaeth hi elw o 26% drwy werthu'r siaced mewn arwerthiant (*auction*).
Am faint cafodd siaced Lucy ei gwerthu yn yr arwerthiant? [3]

(b) O wybod bod 65% o fesuriad yn 43-55 metr, cyfrifwch y mesuriad cyfan. [2]

7 Teithiodd Amira 180 milltir mewn car.
Cwblhaodd hi'r ddwy ran gyntaf o dair (*the first two-thirds*) o'i thaith mewn 3 awr.

Roedd ei buanedd cyfartalog am weddill ei thaith yn 75% o'i buanedd cyfartalog am y 3 awr gyntaf.

Faint o amser gymerodd Amira i gwblhau ei thaith gyfan? [4]

8 Mae Dylan yn buddsoddi £12 000 am 3 blynedd ar adlog o 4% y flwyddyn.

Darganfyddwch yr adlog sy'n cael ei ennill yn y 3 blynedd.

Dylai eich ateb gael ei roi'n gywir i'r geiniog agosaf.

Atebion

1. Coeden A: $225 \times \left(\frac{2}{3}\right)^2 = 100$ kg.
 Coeden B: $200 \times 80\%^2 = 128$ kg.
 Cynhyrchodd coeden B y mwyaf o ffrwythau, o 28 kg.
2. $£192 \div 60\% = £320$.
3. $3,655 \div 86\% = 4,250$ o bobl.
4. $2,116 \div 92\% = 2,300$ kg.
5. $1,144 \div 65\% = 1,760$ o goed.
6. (a) $£120 \times 126\% = £151.20$.
 (b) $43.55 \div 65\% = 67$ metr.
7. $180 \times \frac{2}{3} = 120$ milltir. Felly 120 milltir mewn 3 awr.
 Buanedd = Pellter \div Amser.
 Buanedd = $120 \div 3$
 Buanedd = 40 milltir yr awr.
 Ar gyfer darn olaf y daith, Buanedd = $40 \times 75\%$
 Buanedd = 30 milltir yr awr.
 Amser = Pellter \div Buanedd
 Amser = $60 \div 30$
 Amser = 2 awr.
 Felly cymerodd Amira $3 + 2 = 5$ awr i gyd.
8. $£12,000 \times 104\%^3 = £13,498.37$, i'r geiniog agosaf.
 $£13,498.37 - £12,000 = £1,498.37$.